Arolygu darpariaeth addysgol ar gyfer plant cyn oed ysgol gorfodol

Adroddiad meithrin ar:

Cylch Meithrin Nant Dyrys

Arolygydd Addysg Feithrin Cofrestredig: Mr Eifion R Morgan

Dyddiad yr arolygiad: 29/30 Mehefin 2010

Rhif y Contract: T/119/09N

Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2010: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Adroddiad ar arolygu lleoliadau meithrin yn y sector nas cynhelir

Enw'r feithrinfa: Cylch Meithrin Nant Dyrys

Cyfeiriad: Ysgol Gynradd Ynyswen, Heol Clinig, Ynyswen, Treorchy, RCT

Cod Post: CF42 6ED

Ffôn: 07855043356

Person sy'n gyfrifol am reoli o ddydd i ddydd: Helen Biggs a Nicola Jones

Swydd: Arweinwyr ar y cyd

Ynglŷn â'r arolygiad

Cynhaliwyd yr arolygiad fel rhan o raglen genedlaethol o arolygiadau o'r ddarpariaeth addysgol ar gyfer plant cyn oed ysgol gorfodol yng Nghymru. Fe'i comisiynwyd gan Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

Diben arolygu yw nodi nodweddion da a diffygion er mwyn i ddarparwyr allu gwella ansawdd yr addysg a gynigir a helpu plant i gyflawni eu llawn botensial. Diben arall yw hysbysu rhieni a'r cyhoedd am ansawdd addysg feithrin. Rhaid rhoi copi o'r adroddiad arolygu i bob rhiant/gofalwr sydd â phlentyn yn y feithrinfa a dylai fod ar gael ar gais i bobl eraill.

Mae arolygwyr wedi defnyddio graddfa pum pwynt i gofnodi'r holl farnau. Dyma'r diffiniadau graddau:

Gradd 1	da gyda nodweddion rhagorol
Gradd 2	nodweddion da a dim diffygion pwysig
Gradd 3	nodweddion da'n gorbwyso diffygion
Gradd 4	rhai nodweddion da, ond diffygion mewn meysydd pwysig
Gradd 5	llawer o ddiffygion pwysig

1.0 Cyd-destun y lleoliad

Cyd-destun lleoliad y feithrinfa:

Mae Cylch Meithrin Nant Dyrys yn Feithrinfa gyfrwng Gymraeg sydd wedi`i lleoli mewn caban a adeiladwyd i`r pwrpas ar faes Ysgol Gynradd Ynyswen. Daw`r plant sy`n mynychu`r Cylch o bentref Ynyswen – pentref tebygol i`r cymoedd yng Nghwm Rhondda rhwng Treorchi a Threherbert.

Mae`r Cylch wedi bod yn y lleoliad hwn ers pum mlynedd a chanddo ddefnydd cyfan gwbl o`r cyfleusterau gan ddefnyddio rhai o ardaloedd chwarae allanol yr ysgol hefyd. Mae grisiau neu ramp yn arwain at fynedfa`r Cylch sy`n agor i mewn i gyntedd. Darperir hyn gyfleusterau hongian cotiau a hysbysfwrdd mawr sy`n rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i rieni am y Cylch, gan gynnwys gweithgareddau`r wythnos. Ceir cyfleusterau toiled a golchi dwylo cymharol gyfleus yma hefyd ar gyfer y plant.

Mae`r cyntedd yn arwain at ystafell fawr sydd wedi`i haddurno`n lliwgar gydag arddangosfeydd ar y wal sy`n darparu`r plant ag amgylchedd dysgu deniadol. Caiff ei wahaniaethau`n briodol i ardaloedd o weithgareddau sydd wedi`u trefnu`n dda gyda adnoddau ar gyfer datblygu`r deilliannau a nodir yn y Cyfnod Sylfaen ar gyfer plant o`r oedran yma. Ceir cegin fach yn agor o`r ystafell hon sydd ag adnoddau da lle caiff byrbrydau eu paratoi. Yn ogystal, ceir swyddfa fach sy`n sicrhau preifatrwydd yn ôl yr angen.

Tu allan, ceir ardal ddiogel sydd ag anoddau da gyda ardal o darmac llyfn ac adeilad gysgodol y gellir ei chloi. Mae`r ardal hon yn hygyrch i`r plant oherwydd bod ramp bren yn arwain ati sy`n galluogi y gellir cynnal gweithgareddau tywod a dŵr, peintio a gwneud marciau yno. Yn ogystal, mae`n darparu cysgod o`r glaw a`r haul ac ardal lle gellir tyfu planhigion. Mae gan y Cylch fynediad hefyd i gyfleusterau allanol yr ysgol sy`n cynnwys offer chwarae mawr ac ardal archwilio.

Dywed y Cylch fod y mwyafrif o`r plant yn dod o gefndiroedd Saesneg eu hiaith ac yn mynychu`r Cylch er mwyn elwa o`r addysg gyfrwng Gymraeg cyn mynychu`r ysgol gynradd gyfrwng Gymraeg. Mae`r Cylch yn cynrychioli`r ystod lawn o alluoedd ac yn derbyn plant ag anghenion arbennig. Nid oes yr un plentyn yn y grŵp cyfredol wedi`i nodi ag anghenion tebyg, ond mae`r Cylch yn y gorffennol wedi derbyn cefnogaeth wrth asiantaethau eraill fel gweithwyr cymdeithasol a therapyddion lleferydd. Nid oes plentyn ar hyn o bryd o gefndir ethnig lleiafrifol na chwaith o gartrefi sydd o dan anfantais gymdeithasol.

Mae`r Cylch yn derbyn plant o`r oedran dwy flwydd oed a phedwar mis gan symud ymlaen i`r cam nesaf yn eu haddysg yn y mis Medi sy`n dilyn eu trydydd penblwydd. Gan amlaf, maent yn mynchu`r ysgol gynradd gyfrwng Gymraeg gerllaw. Ar hyn o bryd, mae 24 o blant ar y gofrestr gyda 17 yn 3 oed, ac ariennir 12 ohonynt.

Mae`r Cylch yn cael ei arwain a`i rheoli gan ddwy arweinydd profiadol sydd â chymwysterau da sy`n cael eu helpu gan un aelod arall o staff llawn amser. Mae tri cynorthwy-ydd arall o dan hyfforddiant yn gweithio am 2 a 4 bore`r wythnos. Mae`r Cylch wedi elwa `n sylweddol o gymorth grant gan gynnwys arian loteri a chefnogaeth wrth Fudiad Ysgolion Meithrin, yr awdurdod addysg lleol a`r gymuned.

Mae`r Cylch hefyd yn weithgar yn trefnu gweithgareddau codi arian. Canlyniad hyn oll yw cyfleuster ag adnoddau da ar gyfer y plant. Mae`r holl staff yn siaradwyr Cymraeg ac wedi mynychu amrywiaeth dda o gyrsiau hyfforddi – llawer ohonynt yn eu hamser eu hun.

Daw rhieni a gofalwyr i glywed am y Cylch ar lafar, drwy hysbysiadau yn y papurau lleol a`r clinig. Mae nifer o`r plant wedi mynychu`r grŵp Ti a Fi hefyd. Ceir llyfryn llawn gwybodaeth ar gyfer rhieni a gofalwyr sy`n eu darparu â manylion y Cylch. Daw rhieni a gofalwyr â`u plant i mewn i`r Cylch bob bore sy`n gyfle i gael cyfarfod â`r staff. Mae`r plant yn awyddus i fynd i`r afael â`r gweithgareddau a osodir ar eu cyfer.

Mae`r Cylch ar agor am bum bore`r wythnos yn ystod amser tymor rhwng 9.15 y.b. ac 1 y.p. ac wedi`i gofrestru gyda`r Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ar gyfer 24 o blant. Mae`n darparu`r plant ag amgylchedd diogel lle caiff y plant eu goruchwylio bob amser.

Cefnogir y Cylch gan Fudiad Ysgolion Meithrin ac wedi mabwysiadau ei bolisiau a`u haddasu yn ôl yr angen lle`n briodol. Darparwyd cefnogaeth werthfawr a chymorth hefyd gan Bartneriaeth Datblygiad y Blynyddoedd Cynnar a staff Cefnogi`r Teulu`r Awdurdod Lleol. Mae`r Cylch yn elwa hefyd o`r cysylltiad agos â`r ysgol gynradd leol.

Mae`r pwyllgor rheoli`r Cylch yn arolygu gwaith y Cylch. Ymdrinir â hunanarfarnu yn reolaidd a gosodwyd targedau perthnasol yn y gorffennol a`u cyflawni. Mae`r targedau cyfredol ar gyfer gwella yn briodol.

Arolygwyd y Cylch ddiwethaf gan yr AGGCC ym mis Ionawr 2009. Nid yw`r Cylch wedi ei arolygu gan Estyn o`r blaen.

2.0 Prif ganfyddiadau'r adroddiad

2.1 Ansawdd a safonau cyffredinol darpariaeth addysgol a ph'un a yw'r ddarpariaeth yn hyrwyddo'r nodau ar gyfer dysgu plant yn llwyddiannus ai peidio

Mae ansawdd a safonau cyffredinol y ddarpariaeth addysgol yn briodol ac yn hyrwyddo Canlyniadau`r Cyfnod Sylfaen ar gyfer dysgu plant yn llwyddiannus.

2.2 Safonau a gyflawnir gan blant yn y saith maes dysgu

Maes dysgu	Gradd ar gyfer plant o dan bump oed
Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol	1
Medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu	2

Datblygiad mathemategol	2
Datblygiad yn y Gymraeg	2
Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd	2
Datblygiad corfforol	2
Datblygiad creadigol	2

2.3 Barn arolygu ar ansawdd yr addysg a ddarperir gan y lleoliad

Ansawdd yr addysg	Gradd ar gyfer plant o dan bump oed
Ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol plant	**1**
Ansawdd y cynllunio ar gyfer dysgu plant	**2**
Ansawdd yr addysgu	**2**
Ansawdd asesu a chofnodi cynnydd plant, ac adroddiadau i rieni a gofalwyr	**3**
Ansawdd y berthynas â rhieni, gofalwyr a'r gymuned	**2**
Y graddau y mae'r lleoliad yn cyfrannu at les plant	**1**
Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y lleoliad	**2**
Y cynnydd a wnaed gan y lleoliad wrth weithredu'r materion allweddol ar gyfer gweithredu a nodwyd yn yr adroddiad arolygu diwethaf	**Amherthnasol**

3.0 Y safonau a gyflawnir gan blant yn y chwe maes dysgu

Safonau a gyflawnir gan blant 3-4 oed.

3.1 Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Gradd 1 – Da gyda nodweddion rhagorol

Nodweddion rhagorol

Mae`r holl blant yn dangos graddfa uchel o hyder ac adlewyrchir hyn yn eu gallu i ymgymryd â gweithgareddau ar eu pen eu hunain am gyfnodau hwy o amser. Mae hunan-hyder cynyddol y plant yn eu galluogi i fynd i`r afael â phrofiadau newydd ac i weithio mewn grwpiau bach, gan ddangos parch tuag at eu gilydd. Mae llawer o blant yn cymryd cyfrifoldeb am lendid personol heb anogaeth gan oedolion.

Nodweddion da

Mae`r holl blant yn ffurfio perthynas dda a da iawn gyda phlant eraill ac oedolion. Maent yn dechrau dangos sensitifrwydd tuag at anghenion eraill yn y ffordd maent yn cymryd tro, rhannu ac ymateb i ymresymu. Mae`r holl blant yn hyderus i ofyn am gymorth yn ôl yr angen ac yn mwynhau profiadau newydd.

Mae`r rhan fwyaf o blant yn gwybod bod angen trin pethau byw fel anifeiliaid anwes yn ofalus ac mae`r holl blant wedi plannu hadau a gofalu am blanhigion.

Mae`r holl blant yn ymwybodol o rai o draddodiadau Cymru ac wedi dathlu Dydd Gŵyl Dewi er enghraifft gan wisgo i fyny, samplo bwyd tebygol o Gymru a pheintio eiconau Cymreig.

Mae`r holl blant wedi cael rhywfaint o brofiadau o ddiwylliannau a dathliadau eraill, fel y Flwyddyn Newydd Tsieinëeg.

3.2 Medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu

Gradd 2 – Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Nodweddion da

Mae gan y rhan fwyaf o blant fedrau gwrando da ac yn dilyn cyfarwyddiadau yn fodlon. Mae dealltwriaeth y plant o`r iaith Gymraeg yn uwch na`u gallu i siarad yn yr iaith. Yn ystod yr arolygiad, roedd ymateb plant i gwestiynau oedolion fel “Ydych chi`n hapus?” yn nodi dealltwriaeth bron pob plentyn gyda lleiafrif yn unig yn medru ateb yn hyderus.

Mae`r holl blant yn mwynhau ac yn cymryd rhan yn frwdfrydig gyda chaneuon a hwiangerddi yn y Gymraeg, gyda llawer ohonynt wedi`u dysgu ar gof. Mae eu hynganu yn dda ac ar y gorau mae`r plant yn deall ystyr y geiriau a`r ymadroddion maent yn canu.

Mae`r holl blant yn dangos diddordeb mewn llyfrau gyda llawer yn mwynhau gwrando ar storiau. Mae llawer o blant yn mwynhau gwrando ar storiau yn eu cornel wrando gan ddilyn storiau ar dâp yn eu llyfrau stori. Mae`r plant yma`n dal llyfrau`n ofalus ac yn troi`r tudalennau yn briodol. Gwyddant fod gan eiriau ystyr.

Mae`r plant yn mwynhau ysgrifennu cynnar ac yn defnyddio ystod o gyfryngau gan gynnwys sialc, creonau a phenseli. Deallant bwrpas ysgrifennu ac mae ychydig o blant yn dechrau ffurfio llythrennau o`r wyddor sy`n hawdd i`w hadnabod.

Drwyddi draw, mae`r holl blant yn datblygu eu gwybodaeth a`u dealltwriaeth o`r iaith Gymraeg ar gyflymder da gan gaffael yn yr iaith sy`n eu galluogi i ddysgu drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg.

Diffygion

Cyfyngedig yw geirfa`r rhan fwyaf o`r plant yn y Gymraeg ac maent yn amharod i ddefnyddio`r iaith.

3.3 Datblygiad mathemategol

Gradd 2 – Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Nodweddion da

Mae`r holl blant yn ymuno drwy ganu rhigymau a chaneuon cyfarwydd fel “Pum tedi bach yn eistedd ar y wal”. Mae llawer o blant yn rhagweld y rhif nesaf yn y drefn sy`n dangos eu bod yn medru cyfrif yn ôl i sero.

Mae`r rhan fwyaf o blant yn ymuno wrth gyfrif i 9 gydag ychydig yn adnabod ffurf ysgrifenedig rhifau i 4. Mae`r plant yma`n dechrau deall cyfatebiaeth un-i-un wrth ddelio â gwrthrychau go iawn.

Mae`r plant hŷn a mwy galluog yn adnaobd ac yn darlunio siapiau sylfaenol dau ddimensiwn gan gynnwys cylch, triongl, sgwâr, petryal a siapiau sêr. Mae darluniau wedi`u ffurfio`n dda.

Mae`r rhan fwyaf o blant yn didoli, cyfateb a threfnu gwahanol siapiau ac yn ail-greu patrymau. Maent yn rhifo gwrthrychau cyfarwydd ac mae gan nifer ymwybyddiaeth o bwrpas arian.

Mae gan lawer o blant eirfa fathemategol ddatblygol ac yn defnyddio geiriau fel llawn a gwag, trwm ac ysgafn a phen a gwaelod. Mae`r plant yma wedi dechrau mesur hefyd fel wrth bwyso gwahanol gynhwysion tra`n coginio.

Diffygion

Nid oes unrhyw ddiffygion pwysig.

3.4 Datblygiad yn y Gymraeg

Amherthnasol

3.5 Gwybodaeth a dealltwriaeth o’r byd

Gradd 2 – Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Nodweddion da

Mae`r holl blant yn archwilio amrywaieth eang o ddefnyddiau gan gynnwys pethau byw a phethau nad ydynt yn fyw. Mae llawer o blant yn gwybod bod rhai defnyddiau

yn cael eu hatynnu at fagnedau, ond nid yw plastig na ddefnydd. Gwyddant hefyd fod rhai defnyddiau fel pren yn arnofio ac eraill fel cerrig yn suddo mewn dŵr.

Mae`r holl blant yn archwilio defnyddiau yn yr amgylchedd allanol gan ddefnyddio chwyddwydrau i edrych ar anifeiliaid bach a phlanhigion yn fanwl.

Mae llawer o`r plant yn gwybod enwau prif rannau allanol y corff dynol a`u prif ddefnyddiau. Gwyddant hefyd am brif rannau planhigion ac wedi plannu hadau. Mae`r plant yn gwybod bod angen dŵr ar blanhigion er mwyn iddynt dyfu.

Mae`r rhan fwyaf o blant yn gwybod am dymhorau`r flwyddyn a bod gaeaf yn oerach sy`n golygu rhaid iddynt wisgo dillad cynnes. Gwyddant fod dillad gwlyb yn sychu mewn aer a`u bod yn sychu`n gyflymach os cânt eu hongian i fyny.

Diffygion

Cyfyngedig yw gwybodaeth y plant o`u hamgylchedd lleol.

3.6 Datblygiad corfforol

Gradd 2 - Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Nodweddion da

Mae`r holl blant yn mwynhau gweithgareddau corfforol. Gwyddant y gwahanol ffyrdd o symud gan gynnwys cerdded, rhedeg, sgipio, hercian a neidio. Yn eu gweithgareddau symud i gerddoriaeth defnyddiant wahanol ffyrdd o ymateb i`r gerddoriaeth gan ddangos rheolaeth, cyd-bwysedd a chyd-symud cynyddol.

Mae`r holl blant yn chwarae`n hyderus ar deganau mawr gydag ymwybyddiaeth dda o ofod a diogelwch. Gwrandawant ar gyfarwyddiadau gan weithredu`n gyfatebol. Mewn sefyllfaoedd gemau bach gyda phêl dangosant cyd-symud llaw-llygad da.

Mae`r rhan fwyaf o blant yn defnyddio offer bach yn alluog, gan gynnwys sisyrnau a phrennau glud. Mae`r plant yma`n trin offer yn ofalus gan gymryd sylw o faterion diogelwch.

Diffygion

Nid oes unrhyw ddiffygion pwysig.

3.7 Datblygiad creadigol

Gradd 2 – Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Nodweddion da

Mae`r holl blant yn arbrofi gydag amrywiaeth eang o ddefnyddiau gwahanol. Yn ystod eu gweithgareddau peintio maent yn dewis ac yn cymysgu paentiau , yn dal brwsys yn briodol ac yn siarad am eu cynlluniau. Yn eu gwaith dau a thri dimensiwn defnyddiant amrywiaeth o bapurau, deunyddiau a glitr. Mae`r plant yn arbrofi gyda chlai medal, gan brofi`r teimlad a ffurfio gwahanol siapiau.

Mae`r holl blant yn mwynhau gweithgareddau symud i gerddoriaeth, yn defnyddio offerynnau taro ac yn datblygu syniad o rhythm ac yn ymateb i awgrymiadau ar gyfer gwahanol symudiadau.

Mae chwarae-rôl a drama ddychmygol yn galluogi plant i ddefnyddio eu geirfa ddatblygol.

Diffygion

Nid oes unrhyw ddiffygion pwysig

4.0 Ansawdd y ddarpariaeth addysgol

Ansawdd y ddarpariaeth addysgol ar gyfer plant 3-4 oed.

4.1 Ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol plant

Gradd 1 – Da gyda nodweddion rhagorol

Nodweddion rhagorol

Mae datblygiad moesol a chymdeithasol yn dda iawn a chaiff y plant eu darparu â fframwaith foesol a chymdeithasol sy`n eu galluogi i rannu, cymryd tro , ymateb i ymresymu a dangos hunan-reolaeth.

Nodweddion da

Mae gan y Cylch amcanion clir am werthoedd ac egwyddorion sy`n cael eu cyflawni yn ymarferol. Mae agweddau`r plant yn dda iawn sy`n cyfrannu at yr ethos dawel sy`n amlwg yn y Cylch lle mae plant yn dangos hyder a pharch at eu gilydd. Cyd-weithia`r plant yn dda iawn a mwynhau cwmni eu gilydd. Mae amserau byrbryd yn achlysuron cymdeithasol dda iawn ac mae plant yn dysgu rhoi diolch am eu bwyd drwy weddïau byrion.

Mae`r Cylch yn llwyddiannus iawn yn ei gyflwyniad o`r iaith Gymraeg a diwylliannau a thraddodiadau o Gymru.

4.2 Ansawdd y cynllunio ar gyfer dysgu plant

Gradd 2 – Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Nodweddion da

Mae`r rhaglen addysgu wedi`i chynllunio`n effeithiol er mwyn hyrwyddo deilliannau`r Cyfnod Sylfaen ymhob un o`r chwe maes ar gyfer dysgu plant. Mae`n darparu mynediad a chyfle cyfartal ar gyfer yr holl blant, beth bynnag yw eu cefndir. Mae`r cynllunio yn effeithiol yn ei ddarpariaeth o gyfleoedd da i ddatblygu`r Cwricwlwm Cymreig a gallu`r plant yn yr iaith Gymraeg. Cynllunir y gweithgareddau beunyddiol yn dda hefyd er mwyn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol plant a`u lles.

Mae`r plant yn parchu eu gilydd ac yn trin eu gilydd yn dda. Ceir parch at amrywiaeth a rhoddir pwyslais da ar sicrhau cydraddoldeb hiliol.

Drwyddi draw, ceir cyd-bwysedd da rhwng gweithgareddau a arweinir gan blant a gweithgareddau a arweinir gan oedolion gyda`r pwyslais ar ddarparu`r plant â dewis da o weithgareddau.

Diffygion

Nid oes unrhyw ddiffygion pwysig ond nid yw`r cynllunio bob tro`n defnyddio canlyniadau`r asesu yn ddigonol er mwyn nodi`r camau nesaf yn nysgu`r plant a chynllunio`n gyfatebol.

4.3 Ansawdd yr addysgu

Gradd 2 – Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Nodweddion da

Mae`r addysgu yn seiliedig ar wybodaeth a dealltwriaeth gadarn o`r Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant. Trefnir yr addysgu yn effeithiol er mwyn datblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau`r plant yn y chwe maes dysgu. Mae`n gwneud darpariaeth dda i blant ddysgu trwy chwarae ac ymgysylltaid gweithredol ac mae`r Cylch yn darparu gweithgareddau symbylol, heriol a chyffrous ar gyfer yr holl blant.

Trefnir y gweithgareddau yn dda ar gyfer y plant gan ddechrau wrth iddynt gyrraedd yn y bore a pharhau ar gyflymder da drwy`r bore. Ceir cyd-bwysedd da rhwng gweithgareddau a arweinir gan blant a chan oedolion.

Defnyddir caneuon a hwiangerddi yn dda iawn i atgyfnerthu dysgu`r plant o`r iaith Gymraeg.

Mae`r tu allan yn darparu`r plant ag amrywiaeth rhagorol o brofiadau sy`n gallu cael eu defnyddio ar gyfer addysgu pa beth bynnag yw`r tywydd.

Mae oedolion yn defnyddio cwestiynau a sylwadau yn dda i ymestyn a chadarnhau dysgu`r plant ac yn enwedig i ddatblygu eu geirfa yn y Gymraeg.

Drwyddi draw, mae gan y Cylch ddarpariaeth dda o adnoddau tu fewn a thu allan ac fe`u defnyddir yn dda i hyrwyddo safonau uchel ac ansawdd o ddarpariaeth.

Diffygion

Nid oes unrhyw ddiffygion pwysig ond nid yw`r addysgu bob tro`n canolbwyntio ar y camau nesaf yn nysgu`r plant.

4.4 Ansawdd asesu a chofnodi cynnydd plant ac adroddiadau i rieni a gofalwyr

Gradd 3 – Nodweddion da`n gorbwyso diffygion

Mae staff y Cylch yn adnabod eu plant yn dda ac yn sensitif i`w hanghenion. Cedwir cofnodion defnyddiol o gyflawniadau`r plant yn seiliedig ar asesu wythnosol â ffocws a gyflwynwyd yn ddiweddar. Mae`r asesiad o`r plant yn seiliedig ar y chwe maes dysgu.

Hysbysir rhieni a gofalwyr o gyflawniad eu plant drwy gysylltiad anffurfiol â`r staff a thrwy arsylwi gwaith y plant.

Ceir crynodeb o gyflawniad a chynnydd y plant yn yr adroddiad ddiwedd blwyddyn.

Mae`r Cylch yn sensitif i unrhyw blentyn gydag anghenion dysgu ychwanegol ac yn y gorffennol maent wedi defnyddio asiantaethau allanol i ddarparu cefnogaeth ar gyfer y plant yma.

Diffygion

Ni ddefnyddir canlyniadau asesu yn ddigonol i wella`r addysgu a`r dysgu drwy nodi`r camau nesaf yn nysgu`r plant.

4.5 Ansawdd y berthynas â rhieni, gofalwyr a'r gymuned

Gradd 2 – Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Nodweddion da

Roedd rhieni a gofalwyr yn yr holiaduron cyn-arolygiad a mewn trafodaethau wedi mynegi eu boddhad â`r Cylch. Nid oedd unrhyw sylwadau anffurfiol ac roedd barnau`r rhieni a gofalwyr yn amlygu pa mor hawdd mynd atynt ydy`r staff a mwynhad eu plant yn y Cylch.

Hysbysir rhieni a gofalwyr o`r ddarpariaeth addysgol drwy gynlluniau wythnosol a dyddiol a arddangosir ar hysbysfwrdd y cyntedd ac mae staff y Cylch ar gael bob amser i gyfarfod â rhieni a gofalwyr pan ddônt â`u plant i`r Cylch yn y bore.

Mae cylchlythyrau rheolaidd yn cadw pawb yn hysbys o weithgareddau`r Cylch ac arddangosir yr holl fanylion gweinyddol ar hysbysfwrdd.

Daw unigolion a grwpiau o`r gymuned, fel o`r gwasanaeth tân a`r heddlu, i ymweld â`r Cylch i siarad â`r plant a gwneir ymweliadau yn lleol.

Diffygion

Mae`r defnydd a wneir o`r gymuned leol yn gyfyngedig yn nhermau datblygu dealltwriaeth y plant o`u cymuned.

4.6 Y graddau y mae'r lleoliad yn cyfrannu at les plant

Gradd 1 – Da gyda nodweddion rhagorol

Nodweddion rhagorol

Mae`r trefniadau ar gyfer amser byrbryd yn gwneud cyfraniad rhagorol i hyrwyddo lles personol a chymdeithasol y plant. Mae`r bwyd sy`n cael ei baratoi yn iachus ac yn faethlon ac yn cael ei arddangos yn ddeniadol. Mae grwpiau bychan o blant yn bwyta a gweini gyda`u gilydd gan ddewis eu bwyd. Eisteddant ar fwrdd gan aros eu tro a siarad ymysg eu gilydd. Dyma achlysuron sy`n gymdeithasol dda ac yn rywbeth i`r plant ei fwynhau.

Nodweddion da

Mae gan y Cylch weithdrefnau clir sy`n canolbwyntio`n dda ar ddatblygu a chynnal lles personol a chymdeithasol y plant. Mae`r gweithdrefnau beunyddiol wedi`u cynllunio i sicrhau cefnogaeth i`r plant a`u bod yn cael eu hamddiffyn rhag niwed ac esgeulustod. Mae`r egwyddorion hyn yn cael eu gwireddu`n llawn yn ymarferol.

Un o`r arweinwyr yw`r Cyd-lynydd Amddiffyn Plant ac mae`r holl staff yn ymwybodol o`r gweithdrefnau i`w dilyn os oes ganddynt unrhyw bryderon.

Nid oes yr un plentyn heb rywun yn ei oruchwylio pa beth bynnag yw`r weithgaredd ac nid oes yr un plentyn yn medru gadael na oedolyn ddod i mewn yn ddi-rybudd. Mae`r staff yn wyliadwrus pan fydd plant yn cael eu casglu ar ddiwedd y bore.

Mae`r Cylch yn amgylchedd diogel i`r plant gyda gatiau sydd wedi eu cau ar lefel sy`n rhy uchel i`r plant. Ymdrinir ag asesiad risg yn reolaidd ac mae`r staff wedi derbyn hyfforddiant perthnasol mewn Cymorth Cyntaf a hylendid bwyd.

4.7 Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth yn y lleoliad

Gradd 2 – Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Nodweddion da

Mae gan arweinwyr a rheolwyr amcanion a nodau clir sy`n seiliedig ar hunan-arfarnu rheolaidd ac yn cynllunio ar gyfer gwella. Dros y blynyddoedd mae`r Cylch wedi cynllunio`n llwyddiannus ar gyfer creu beth sydd nawr yn amgylchedd allanol deniadol a gwerthfawr ac wedi datblygu mwy o gyfleoedd ar gyfer dysgu annibynnol. Mae`r Cylch wedi canolbwyntio ar ddatblygu canfyddiadau`r plant o arian a hefyd datblygu amser byrbryd fel achlysur gymdeithasol. Mae mentrau tebyg wedi bod yn llwyddiannus mewn datblygu ansawdd y ddarpariaeth addysgol a ddarperir gan y Cylch.

Mae gan y staff gymwysterau da a chyd-weithiant yn dda iawn fel tî m gan gydbwyso eu cyfrifoldebau. Maent wedi cymryd rhan mewn amrywiaeth dda o hyfforddiant, yn aml yn eu hamser eu hun.

Mae adnoddau wedi eu cael drwy godi arian yn lleol sydd yn awr yn darparu`r plant ag amrywiaeth dda o weithgareddau. Mae`r ystafelloedd a`r adeilad wedi`u datblygu ac mae`r tu fewn a`r tu allan yn darparu ar gyfer datblygiad o ddysgu`r plant yn y chwe maes dysgu, fel y rhestrir yn y Cyfnod Sylfaen ar gyfer dysgu plant.

Diffygion

Nid oes unrhyw ddiffygion pwysig ond nid yw potensial yr amgylchedd lleol yn nysgu`r plant wedi ei wireddu.

4.8 Y cynnydd a wnaed gan y lleoliad wrth weithredu'r materion allweddol ar gyfer gweithredu a nodwyd yn yr adroddiad arolygu diwethaf

Amherthnasol

5.0 Argymhellion

Mae angen i'r lleoliad:

*****arolygu gweithdrefnau asesu er mwyn nodi`r hyn gall blant ei wneud a`r camau nesaf yn nysgu`r plant;

*defnyddio canlyniadau`r asesu yn y cynllunio a`r addysgu er mwyn canolbwyntio ar y camau nesaf yn y dysgu ac i ddarparu ar gyfer gwahanol alluoedd a chefndiroedd plant;

*parhau i ddatblygu gallu`r plant yn yr iaith Gymraeg;

*parhau i ddefnyddio a datblygu cysylltiadau â`r gymuned.

Rhaid i'r darparwr lunio cynllun gweithredu ymhen 40 diwrnod gwaith, neu 45 diwrnod gwaith os oes angen cyfieithu'r cynllun i'r Gymraeg neu o'r Gymraeg, gan ddangos sut eir i'r afael â'r materion a nodir uchod. Rhaid rhoi'r cynllun gweithredu i bob rhiant/gofalwr sydd â phlentyn yn y lleoliad. Rhaid anfon copi o'r cynllun gweithredu at Gadeirydd y Bartneriaeth Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant neu'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc, fel y bo'n briodol, ac i'r Awdurdod Lleol. Bydd arfarniad o'r camau a gymerwyd yn ffurfio rhan o'r arolygiad nesaf.